## Grŵp Trawsbleidiol Trais yn erbyn Menywod a Phlant

## 'Effaith Diwygio Lles ar Oroeswyr a'r Gwasanaethau Arbenigol'

**Noddir gan Bethan Jenkins AC a Mark Isherwood AC**
**21 Mehefin 2017, 18:00-20:00**
**Ystafell Gynadledda C, Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

---

**Yn bresennol:**
Bethan Jenkins AC (Cyd-gadeirydd)
Mark Isherwood AC (Cyd-gadeirydd)
Rhianon Passmore AC
Siân Maseko – Cymorth i Ferched Cymru (siaradwr)
Katie – SEEDS (siaradwr)
Gauri – SEEDS (siaradwr)
Mwenya Chimba (siaradwr)
Frances Beecher (siaradwr)
Hilary Watson – Cymorth i Ferched Cymru (cofnodion)
Lisa – SEEDS, Cymorth i Ferched Cymru
Carly – SEEDS, Cymorth i Ferched Cymru
Gwilym Roberts – Relate Cymru
Jackie Jones – Bristol Law School, UWE
Mutale Merrill – BAWSO
Jackie Stamp – New Pathways
Barbara Natasegara – Cymru Ddiogelach

**Ymddiheuriadau:**
Simon Thomas AC
Mair Rigby – WEN Cymru
Emma Renold – Prifysgol Caerdydd
Sharon Hughes – Hafan Cymru
Ellen Jones – UCM Cymru
RASACS North Wales – Jane Ruthe
Kate Jones – Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan
Morgan Fackrell – Cymorth i Ferched Caerdydd

| Cofnodion |
| --- |
| **Siaradwyr:** |
| ***Siân Maseko* – Pennaeth Hyfforddiant a Chyfranogiad gan Oroeswyr, Cymorth i Ferched Cymru**<br>"Diwygio Lles: y darlun cenedlaethol"<br><br>*Amlinellwyd yn y cyflwyniad:*<br>Trosolwg eang o sut y mae diwygio lles yn effeithio ar blant a menywod mewn ffordd sy'n anghymesur a sut y mae elfennau o bolisïau diwygio lles yn tanseilio datblygiadau eraill mewn deddfwriaeth. Cafwyd hefyd drafodaeth am natur groestoriadol ymgynghoriadau cyfyngedig nad ydynt yn ystyried lleisiau goroeswyr na phrofiadau'r rheini sy'n byw yng Nghymru. Roedd rhai o'r materion allweddol a godwyd yn cynnwys - cymorth cyfreithiol, llysoedd teulu, y "cymal trais", credyd cynhwysol a'r lwfans ceisio gwaith. |
| ***Cynrychiolwyr SEEDS (Gwasanaethau Grymuso ac Addysg i Oroeswyr)*, Cymorth i Ferched Cymru**<br>"Effaith Diwygio Lles arnaf i: safbwynt goroeswr"<br>*Amlinellwyd yn y cyflwyniad:*<br>Profiadau personol dau oroeswr a beth oedd effaith diwygio lles arnyn nhw wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau trais domestig ac yn y blynyddoedd ar ôl iddynt adael y lloches. Mae newidiadau yn y system les mewn blynyddoedd diweddar wedi cael effaith fawr ar eu gwellhad ac ar fywydau eu plant wrth i fudd-daliadau gael eu rhewi yn sgil newid mewn sefyllfaoedd (er enghraifft pan gafodd trydydd plentyn ei eni) a newidiadau i systemau, wrth i gyllidebau gael eu rhewi yn gyson wrth i asesiadau newydd gael eu cyfrifo. |
| ***Dr Mwenya Chimba* – Cyfarwyddwr Trais yn erbyn Menywod, Bawso**<br>"Effaith Diwygio Lles ar Oroeswyr BME a Gwasanaethau Arbenigol"<br><br>*Amlinellwyd yn y cyflwyniad:*<br>Mae goroeswyr BME yn wynebu erledigaeth ddwbl – gan droseddwyr a systemau, yn ogystal ag asiantaethau sydd â diffyg dealltwriaeth. Mae'n bosibl eu bod wedi profi rhwystrau ieithyddol a phrofiadau negyddol o ganlyniad i'w hil, dosbarth cymdeithasol, cefndir addysgiadol (e.e. cymwysterau nas adwaenir o dramor). Mae diwygiadau lles wedi cynyddu nifer y bobl sydd angen cymorth ac wedi arwain at achosion mwy cymhleth, yn cynnwys menywod nad oes ganddynt fynediad at arian cyhoeddus. Mae staff yn gyson yn ymdrin â llwyth gwaith sy'n uwch na niferoedd y llwythi achosion yn y cytundeb ac mae anghysondebau ledled y gwahanol Awdurdodau Lleol o ran eu darpariaeth o gymorth i oroeswyr BME. |
| ***Frances Beecher* – Prif Weithredwr, Llamau**<br>"Gwneud y rheini sy'n dlawd yn dlotach a'r rheini sy'n agored i niwed yn fwy agored fyth"<br><br>*Amlinellwyd yn y cyflwyniad:*<br>Esemptiad newydd pobl rhwng 18 a 21 mlwydd oed o'r elfen fudd-dal tai o gredyd cynhwysol. Mae goroeswyr iau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn sefyllfa fwy peryglus fyth – bydd rhaid i bobl rhwng 18 a 21 mlwydd oed ddangos i landlordiaid arfaethedig y byddant yn dal i fod yn gymwys ar gyfer yr elfennau sy'n ymwneud â chostau tai. Mae Llamau wedi creu deiseb er mwyn ceisio gwrthdroi'r penderfyniad hwn. Ar hyn o bryd, mae Llamau yn mynd â Llywodraeth y DU i'r llys er mwyn dadlau bod y newidiadau diwygio yn anghyfreithlon. |

**Trafodaeth:**

1. **Camau gweithredu cyfreithiol:** wedi clywed am y gwir y tu ôl i gamau cyni, a'r pwysau sy'n cael ei roi ar y sector arbenigol trais yn erbyn menywod a merched, disgrifiwyd y rhain fel rhai anfoesol a chytunwyd bod camau gweithredu cyfreithiol yn ffordd gydnabyddedig o gael pobl i wrando. Mae llamau yn cymryd camau cyfreithiol yn erbyn Llywodraeth y DU er mwyn herio'r diwygiadau lles sy'n effeithio ar bobl 18-21 mlwydd oed. Nid ydynt eto wedi mynd at Lywodraeth Cymru ond maent wedi ail-lansio'r ddeiseb, yn dilyn yr etholiad brys, yn y gobaith y bydd yn codi digon o fomentwm eto i gael ei drafod yn Senedd y DU, fel yr oedd Llamau yn agos i'w wneud cyn yr etholiad cyffredinol.

2. **Diwygio lles yn effeithio ar yr un bobl drosodd a throsodd** a dywedodd Rhianon Passmore AC ei bod hi'n fwy na pharod i gynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru er mwyn codi'r pwyntiau a wnaeth yn ystod cyfarfod y grŵp.

3. Cynigiodd Jackie Jones y dylid ysgrifennu at Lywodraeth Cymru, yn gofyn iddynt ailddeddfu **Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010** er mwyn sicrhau bod pobl Cymru yn cael eu hamddiffyn, gan ei wneud yn gyfraith ac yn gymwysadwy. Awgrymwyd ysgrifennu at Carl Sargeant, Ysgrifennydd y Cabinet â chyfrifoldeb dros gydraddoldeb, er mwyn codi'r pwynt.

4. Cydnabu er nad yw lles wedi'i ddatganoli, fod angen i ni edrych ar yr hyn y mae modd i ni ei wneud yng Nghymru, a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdano. Er enghraifft, mae angen model o gyllido cynaliadwy ar gyfer y sector trais yn erbyn menywod a merched arbenigol. Yn ogystal â hyn, y gwaith ataliol y mae'r sector arbenigol yn ei wneud a all rwystro'r angen i ddefnyddio gwasanaethau lles sydd ar hyn o bryd wedi'u tan-ariannu neu nad ydynt wedi eu hariannu o gwbl mewn rhai ardaloedd. Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 wedi ymrwymo i ymdrin â dulliau **<u>Atal</u>**, yn ogystal ag amddiffyn a rhoi cymorth – mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod adnoddau ar gael ar gyfer cyflawni pob amcan yn y Ddeddf.

5. Dywedodd Rhianon Passmore AC fod Llywodraeth Cymru yn deall y **straen sydd ar y Trydydd Sector –** yng nghyd-destun mesurau cyni ac Awdurdodau Lleol yn chwilio am lefydd i gwtogi, yn ogystal â'r effaith ychwanegol y mae diffyg arian yr UE yn debygol o'i chael yn y dyfodol.

6. Wrth i Awdurdodau Lleol gwtogi er mwyn ateb gofynion statudol, yr unig ffordd **y bydd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn cael ei gwireddu yw trwy wasanaethau arbenigol** sy'n cynnig rhagor o gymorth.

7. Trafodwyd y **cytundebau mawr sy'n mynd i'r sector breifat** megis y rheini sy'n mynd i G4S. Dywedodd Mark Isherwood AC mai un broblem yw nad yw rhai unigolion am leihau eu hymerodraethau drwy roi cytundebau i sectorau arbenigol sy'n fwy cymwys, yn hytrach na chwmnïau mawr, gan eu bod yn gweld hynny fel bygythiad.

8. **Themâu awgrymedig ar gyfer y GTB yn y dyfodol – diffiniad o 'Ymyrraeth Gynnar'**. Gan fod gwaith yn ymwneud â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) yn mynd rhagddo, mae'n amser da i gael pobl i wrando.

Cyfarfod nesaf – 20 Medi 2017.

**Camau Gweithredu:**

1. Gwahodd gweinidog/gweithiwr sifil i roi cyflwyniad ar themâu perthnasol – eu gwahodd i wrando yn ogystal â siarad, er mwyn gweld pa waith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn y maes hwn.

2. Jackie Jones i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru er mwyn gofyn iddi ailddeddfu Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (ysgrifenyddiaeth, gyda chymorth Jackie Jones).

3. Cynyddu nifer yr Aelodau Cynulliad sy’n mynychu cyfarfodydd y grŵp .